



Adolygiad Blynyddol 2019-20

Gwneud
y
Peth
lawn

Gwybodaeth Gorfforaethol

Bwrdd Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWM)

Yr Athro Malcolm Morley OBE	- Cadeirydd
Karen Wheeler CBE	- Prif Swyddog Gweithredol
Andrew van der Lem	- Cyfarwyddwr Anweithredol a Enwebwyd gan NDA
Claes Thegerström	- Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Yr Athro Michael Bowman	- Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr David Prout CB	- Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Corhyn Parr	- Cyfarwyddwr Anweithredol a Enwebwyd gan NDA
Peter Lock	- Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch, Sicrhad, yr Amgylchedd ac Ansawdd
John Corderoy	- Cyfarwyddwr Rhaglen GDF

Y Tîm Gweithredol

Karen Wheeler CBE	- Prif Swyddog Gweithredol
Peter Lock	- Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch, Sicrhad, yr Amgylchedd ac Ansawdd
John Corderoy	- Cyfarwyddwr Rhaglen Cyfleuster Gwaredu Daearegol
Peter Welch	- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes
Shaun Roberts	- Cyfarwyddwr Rheoli Gwastraff
Mohammed Sammur	- Cyfarwyddwr Technegol
Steve Reece	- Cyfarwyddwr Lleoli ac Ymgysylltu Cyfleuster Gwaredu Daearegol Dros-dro
Guy Esnouf	- Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid
Andy Wong	- Cyfarwyddwr Gweddnewid

Pennaeth yr Adran Gyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni

Matthew Shaw

Archwilwyr

Mazars LLP
One St Peter's Square
Manceinion M2 3DE

Swyddfa Gofrestredig RWM

Adeilad 329 Gorllewin
Thomson Avenue
Campws Harwell
Didcot
Swydd Rydychen
OX11 0GD

Asesiad Effaith Covid-19

Ar hyn o bryd, rydyn ni yng ngafael y pandemig Covid-19 a'i effaith anochel ar y wlad a'r byd.

Er na allwn ragweld eto pa mor hir y bydd hyn yn parhau, rwy'n falch o ddweud bod ein sefydliad a'n holl staff, hyd yma, wedi addasu ac ymdopi'n dda iawn â'r sefyllfa heriol iawn hon, ac wedi cael cyfnod pontio bron yn ddi-dor i weithio gartref. Mae gwytnwch ein tîm, ein dull o ddatrys problemau a'r ffaith ein bod wedi bod mor ofalus o'n gilydd a'r rheini o'n cwmpas wedi creu cryn argraff arnaf: cydweithwyr yng nghymuned yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a'n cymunedau lleol.

Fodd bynnag, bydd y pandemig yn effeithio ar ein cynlluniau a'n darpariaeth yn ystod y flwyddyn i ddod, ac efallai am gyfnod hirach, wrth i'r effaith lawn ddatblygu. Er bod ein ffocws ar hyn o bryd ar iechyd a lles ein pobl, parhad busnes, a chydymffurfiad â holl ganllawiau'r llywodraeth a Grŵp yr NDA, rydym hefyd yn asesu'r effaith bosibl ar ein rhaglen waith, a chynlluniau ehangach. Byddwn yn adlewyrchu'r cynlluniau diweddaraf mewn fersiynau wedi'u diweddarau o'n Atodiad Cynllun Busnes cyhoeddedig.

Er bod y dyfodol yn edrych yn ansicr, mae ein cenhadaeth yn parhau i fod yn glir ac yn dal i fod yn hanfodol bwysig ar gyfer yr hirdymor. Rwy'n parhau i fod yn hyderus ein bod mewn sefyllfa gref i barhau i symud y genhadaeth hon ymlaen er lles y wlad.

Karen Wheeler CBE

Prif Swyddog Gweithredol
Rheoli Gwastraff Ymbelydrol

Cynnwys

Gwybodaeth Gorfforaethol	2
Asesiad Effaith Covid-10	3
Datganiad ein Cadeirydd	7
Adolygiad 2019-20 y Rheolwr Gyfarwyddwr	8
Amdanom Ni	16
Y Ffordd y cawn ein Llywodraethu	21
Adroddiad Strategol	
Cyflwyniad – prif weithgareddau 2019-20	22
Rhoi'r polisi GDF ar waith	26
Rheoli Gwastraff	28
Rhaglen Dechnegol	32
Datblygu sefydliad cyflawni effeithiol	34
Cyflogai – Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	37
Cyflwyniad i Karen Wheeler, ein Prif Weithredwraig newydd	41
Adroddiad Strategol – Edrych Ymlaen	42





Datganiad gan ein Cadeirydd

Cyflwyniad

Mae Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWM) yn is-gwmni i'r NDA sydd â chyfrifoldeb am ddarparu un o'r rhaglenni seilwaith amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol yn y DU - Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF) ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar atebion rheoli gwastraff ymbelydrol. Bydd ei gyfraniad i'r DU yn cael effaith gadarnhaol am genedlaethau i ddod.

Mae ffordd o weithio RWM, yn unol â pholisi llywodraeth Cymru a Lloegr ac amcanion yr NDA, yw gweithio gyda chymunedau i archwilio sut gall GDF wneud cyfraniad hirdymor positif i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer eu cymuned. I'r perwyl hwn, mae RWM wedi cyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau ynghylch GDF, sut caiff safleoedd posibl eu gwerthuso a sut bydd yn ymgysylltu â chymunedau. Mae RWM wedi defnyddio'r dogfennau hyn i benderfynu sut i ymgysylltu â chymunedau ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion o'r cynnydd y mae wedi'i wneud.

Cynnydd

Lansiwyd proses leoli GDF yn sgil cyhoeddi polisi'r llywodraeth yn Lloegr yn ystod mis Rhagfyr 2018 (Ionawr 2019 yng Nghymru) a dynodwyd y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) ym mis Hydref 2019. Cymeradwyodd y llywodraeth gam nesaf Cynllun Busnes Rhaglen GDF hefyd; carreg filltir bwysig.

Yn ystod 2019-20 cychwynnodd RWM drafodaethau cyfrinachol anffurfiol gyda nifer o unigolion a sefydliadau ledled y wlad, i ddarparu gwybodaeth ac i archwilio a allai GDF gyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer eu cymunedau. Dim ond y partion â diddordeb sy'n penderfynu pa mor gyflym yr hoffon nhw i'r trafodaethau hyn fynd rhagddynt ac mae RWM wedi parhau i ddarparu gwybodaeth ac i weithio gyda'r partion â diddordeb i ateb eu cwestiynau ac i ddarparu gwybodaeth ddaearegol a gwybodaeth arall.

Y cam nesaf yw symud i Weithgorau a datganiad buddiant cyhoeddus mewn archwilio lleoli GDF heb unrhyw ymrwymiad gan y gymuned honno. Mae datblygu cysylltiadau â chymunedau ar sail ymddiriedaeth yn broses y mae RWM yn cydnabod sy'n cymryd amser ac na ellir ei rhuthro.

“Mae Datblygu cysylltiadau gyda chymunedau ar sail ymddiriedaeth yn broses y mae RWM yn cydnabod sy'n cymryd amser ac na ellir ei rhuthro.”

Mae RWM hefyd wedi parhau i gefnogi'r NDA a chynhyrchwyr gwastraff ymbelydrol, i reoli rhestr gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd y DU yn rhagweithiol. Mae hyn yn rhan o ddull integredig rheoli gwastraff yr NDA ac mae'n penderfynu ar y ffordd orau i adfer, cyflyru a phecynnu gwastraff nawr fel eu bod yn addas i'w waredu'n ddiogel maes o law, gan ddarparu diogelwch tymor hir parhaol yn ogystal ag arbedion sylweddol i drethdalwr y DU.

Datblygu'r sefydliad

Mae cyflwyno un o raglenni seilweithiau amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol y DU yn mynnu bod RWM yn parhau i wneud hynny drwy esblygu'r sefydliad. Mae gwyddoniaeth, technoleg a diogelwch o'r pwys mwyaf i RWM fel y mae ymgysylltu â'r gymuned a bod yn sefydliad sy'n cyflawni ac yn perfformio'n dda. Mae hwn wedi bod yn ffocws allweddol i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

Mae'n hanfodol bod gan RWM y sgiliau a'r cymwyseddau cywir i ddatblygu cysylltiadau parhaus â chymunedau a'i rhanddeiliaid allanol amrywiol ac i weithio'n effeithiol gyda'i gadwyn gyflenwi ar baratoi, dylunio ac adeiladu GDF. Gan fod y GDF wedi symud o'r cam datblygu polisi i gyflawni, dyma hefyd sydd wedi digwydd i RWM.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Bruce McKirdy ei fwriad i ymddeol fel Rheolwr Gyfarwyddwr RWM. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i Bruce am ei ymroddiad, ei ymrwymiad a'i arweinyddiaeth wrth arwain RWM trwy gamau cyntaf ei ddatblygiad. Roedd Bruce yn allweddol wrth sicrhau bod y busnes mewn sefyllfa dda i lansio'r broses leoli GDF.

Ym mis Chwefror 2020 penodwyd Karen Wheeler CBE yn Brif Swyddog Gweithredol RWM i gymryd lle Bruce. Yn y gorffennol mae Karen wedi gwasanaethu ar Fwrdd RWM fel Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol ac mae ganddi ystod eang o brofiad ar lefel Bwrdd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ym mis Rhagfyr 2019 ymddiswyddodd Ann McCall, Cyfarwyddwr Lleoli ac Ymgysylltu, o'r Bwrdd a Thîm Gweithredol RWM. Unwaith eto ar ran y Bwrdd, hoffwn fynegi ein gwerthfawrogiad am y cyfraniad arwyddocaol a wnaeth wrth baratoi RWM ar gyfer cam nesaf ei esblygiad.

“Mae gwyddoniaeth, technegol a diogelwch o'r pwysigrwydd pennaf i RWM fel mae ymgysylltu â chymunedau a bod yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.”

Ym mis Ionawr 2020 penodwyd Cyfarwyddwr Trawsnewid Dros Dro i gefnogi esblygiad RWM. Mae'r rôl hon yn cynnwys edrych ar sut mae RWM yn gweithio ar hyn o bryd a sut y bydd ei ddiwylliant, ei brosesau, ei systemau a'r modd y caiff ei lywodraethu, ynghyd â'r galluoedd sefydliadol, yn datblygu ymhellach i gyflawni ei genhadaeth. Gwneir penodiadau pellach i'r Tîm Gweithredol yn ystod 2020-21 a phenodir Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol i'r Bwrdd.

Wrth weithio mewn partneriaeth â chymunedau i archwilio safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer GDF, bydd RWM yn parhau i ddatblygu ac yn sail i ddyluniadau ar gyfer y system gwaredu daearegol ar gyfer creigiau cynnal a geir yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr annibynnol i symud ymlaen i ddatblygu achosion diogelwch, amgylcheddol a sicrhau i gwmpasu adalw a chludo gwastraff

i GDF, gweithredu'r cyfleuster, a diogelwch y cyfleuster ar ôl ei gau. Mae hefyd yn cynnwys gweithio gyda'r Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) a chyrrff arbenigol eraill i sicrhau bod ein sefydliad yn elwa o'u barn a chynngor. Mae RWM yn croesawu'r cyfraniadau

cadarnhaol hyn yn fawr a'r hyder y gall cymunedau ei gael yn yr asesiadau allanol annibynnol o unrhyw gynigion gan RWM. Mae sefyllfa'r llywodraeth, yr NDA a'r RWM yn glir; os nad yw'r opsiwn yn ddiogel ni chaiff ei symud ymlaen.

Symud Ymlaen

Mae llawer o bobl a sefydliadau yn chwarae rolau pwysig wrth gefnogi RWM i gyflawni ei genhadaeth. Mae hyn yn gofyn am waith tîm a'r parodrwydd a'r gallu i ddeall y cyddestunau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, cymunedau a'r hyn sy'n eu poeni, a sicrhau bod RWM yn parhau i esblygu. Hoffwn ddiolch i gydweithwyr yn yr NDA am eu cefnogaeth barhaus i RWM a diolch i bawb sydd wedi gweithio mor gadarnhaol gydag RWM yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'm cydweithwyr ar Fwrdd RWM a'r Tîm Gweithredol sy'n dangos yn gyson trwy eu cyfraniad, eu hymrwymiad i wireddu cenhadaeth hanfodol bwysig RWM. Rwy'n hyderus y bydd RWM yn parhau i esblygu i'w alluogi i gyflawni ei genhadaeth bwysig.

Mae Covid-19 wedi creu llawer o sialensiau a heriau a dyw RWM ddim yn ddiogel rhagddynt. Fodd bynnag, bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn i gyflawni cymaint ag y gall wrth symud ymlaen i ddarparu GDF a darparu datrysiadau rheoli gwastraff.



Yr Athro Malcolm Morley OBE
Cadeirydd, Rheoli Gwastraff Ymbelydrol



“Mae llawer o bobl a sefydliadau'n chwarae rolau pwysig yn cefnogi RWM i gyflawni ei genhadaeth.”

“*Fe benderfynais ar nifer o gamau gweithredu yr oeddwn yn awyddus i'w cwblhau cyn gadael:*

- *Cyflawni a chyhoeddi'r ffordd o weithio o ran y gwerthusiad safle yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a wnaethon ni yn ystod 2018-19.*
- *Cefnogi'r llywodraeth yn cwblhau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilweithiau Gwaredu Daearregol.*
- *Cael cymeradwyaeth y llywodraeth ar gyfer yr achosion busnes sydd eu hangen i symud y rhaglen yn ei blaen.*
- *Dechrau'r gwaith sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn: ymgysylltu â chymunedau*

”

Adolygiad 2019-20 y Rheolwr Gyfarwyddwr

Rhagolwg gan Bruce McKirdy, ein Rheolwr Gyfarwyddwr sy'n ymadael

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau ar ein gweledigaeth sef darparu dyfodol mwy diogel sy'n amddiffyn pobl a'r amgylchedd.

Sefydlu GDF yn ddwfn o dan y ddaear, i ymdrin â gwastraff uwch ei actifedd y DU, yw'r peth cyfrifol i'w wneud ar ran cymdeithas heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dyma hefyd y broses gyntaf yn seiliedig ar gydsyniad cymunedol ar gyfer prosiect o'r maint a'r raddfa hon. Mae hwn yn brosiect aml-genhedlaeth hynod arwyddocaol, a disgwylir i'r cam gweithredol bara am gan mlynedd neu fwy. Mae hefyd yn broses sy'n gofyn am gymuned barod, wybodus a chefnogol.

Ar ran yr NDA a'r llywodraeth, mae gennym y dasg o ddarparu GDF yn y DU, ac rwy'n falch fy mod wedi arwain ein sefydliad trwy'r camau cyntaf i symud y genhadaeth hon yn ei blaen ar gyfer dyfodol mwy diogel.

Ni ellir ei bwysleisio'n ddigon aml: mae angen dybryd i fynd i'r afael â'n gorffennol niwclear, a chredwn mai ni yw'r genhedlaeth a ddylai gymryd cyfrifoldeb am y gwaddol hwn.

Rydym mewn sefyllfa dda i gyflwyno i randdeiliaid a chymunedau

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, cyhoeddais fy mwriad i ymddeol ddiwedd mis Mawrth 2020. Wrth i'n sefydliad baratoi i ddechrau ar gyfnod newydd yn y rhaglen GDF, roedd yr amser yn

iawn ar gyfer y newid hwnnw a chytunais ar gynllun gyda'n Bwrdd i'w drosglwyddo i'm holynydd. Nodais nifer o gamau yr oeddwn am eu cyflawni cyn gadael:

- *Cyflawni a chyhoeddi'r ffordd o weithio o ran y gwerthusiad safle yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a wnaethon ni yn ystod 2018-19.*
- *Cefnogi'r llywodraeth yn cwblhau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilweithiau Gwaredu Daearregol.*
- *Cael cymeradwyaeth y llywodraeth ar gyfer yr achosion busnes sydd eu hangen i symud y rhaglen yn ei blaen.*
- *Dechrau'r gwaith sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn: ymgysylltu â chymunedau*

“Ni ellir ei bwysleisio'n ddigon aml: mae angen dybryd i fynd i'r afael â'n gorffennol niwclear, a chredwn mai ni yw'r genhedlaeth a ddylai gymryd cyfrifoldeb am y gwaddol hwn.”

Fel sefydliad, rydym wedi gweithio'n eithriadol o galed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau y cyflawnwyd popeth a nodwyd uchod yn llwyddiannus. Yn anochel, mae tirwedd wleidyddol y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio ar gynnydd rhai gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a gwerthuso safleoedd, ac amgylchiadau mwy diweddar a digynsail COVID-19.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gwelwyd etholiadau lleol ac ym mis Rhagfyr cawsom Etholiad Cyffredinol. Mae'r ddau ddigwyddiad hyn yn gofyn am gyfnod 'tawel' sydd i bob pwrpas, yn oedi ein gweithgareddau ymgysylltu. Maent hefyd yn arwain at newidiadau i arweinwyr gwleidyddol sydd yn ei dro yn golygu meithrin cysylltiadau newydd. Fodd bynnag, mae'n arwydd cadarnhaol o ymrwymiad y llywodraeth i'n rhaglen ein bod, hyd yn oed gyda'r etholiadau hynny a'r flaenoriaeth a roddwyd i Brexit, wedi cyflawni cymaint ag yr ydym wedi'i wneud.

Yn ehangach, rydym wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws grŵp NDA ar ddatblygu atebion rheoli gwastraff ymbelydrol. Dyma fydd y maes datblygu ar gyfer ein sefydliad wrth i ni weithio ar y cyd gyda'r NDA ar raglen Rheoli Gwastraff Integredig (IWM) er mwyn optimeiddio sut y mae'n rheoli gwastraff trwy gylch bywyd cyflawn gwastraff ledled y DU.

Mae hi wedi bod yn bleser ac yn anrhydedd arwain RWM ers ei ffurfio nôl yn 2014. Hoffwn ddiolch i'r holl staff a'r prif randdeiliaid am eu cefnogaeth i mi yn fy swydd. Rwy'n credu ein bod mewn sefyllfa wych i wynebu sialensiau newydd ac rwy'n llwyr hyderus yn fy olynydd, Karen Wheeler, mai hi yw'r person cywir i symud y sefydliad yn ei flaen.

Bruce McKirdy
Rheolwr Gyfarwyddwr
Rheoli Gwastraff Ymbelydrol



Amdanom Ni

Gweithredu nawr i ddiogelu'r dyfodol

Mae technoleg niwclear wedi bod yn rhan o'n bywydau ym Mhrydain ers dros 60 mlynedd. Mae'n darparu bron i un rhan o bump o drydan y DU, ac mae'r sector diwydiant, meddygaeth ac amddiffyn yn ei ddefnyddio. Mae'r gweithgareddau hyn wedi creu gwaddol o wastraff ymbelydrol y mae angen i ni ei reoli'n ddiogel heddiw ac am lawer o filoedd o flynyddoedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff hwnnw'n cael ei ddsbarthu fel lefel isel o ran ymbelydredd ac mae eisoes wedi'i waredu'n ddiogel. Y mwyaf peryglus – gwastraff uwch ei actifedd – mae angen rheoli'r gwastraff hwn yn fwy gofalus. Ar hyn o bryd mae peth o'r gwastraff hwn yn cael ei gadw'n ddiogel mewn cyfleusterau mewn safleoedd diogel uwchben y ddaear. Mae'n ddiogel, ond mae angen ei reoli a'i amddiffyn yn ofalus yn gyson. Nid yw'n ddatrysiad hirdymor oherwydd byddai angen gwaith cynnal a chadw parhaus arno am filoedd o flynyddoedd.

Pam gweithredu nawr? Dyma'r peth iawn i'w wneud i greu datrysiad hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, trwy gael gwared ar y baich o orfod cynnal storfa arwyneb yn gyson. Gwaredu daearegol yw'r dull y cytunwyd arno yn rhyngwladol ar gyfer gwaredu ein gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn barhaol ac yn ddiogel.

Mae GDF yn cynnwys rhwydwaith o gladdgelloedd a thwneli tanddaearol peirianyddol perfformiad uchel. Cânt eu hadeiladu i waredu gwastraff ymbelydrol uwch

ei actifedd yn barhaol fel na fydd unrhyw lefelau ymbelydredd niweidiol a heb eu caniatáu byth yn cyrraedd wyneb yr amgylchedd. Mae'n defnyddio rhwystrau lluosog peirianeg ddynol a chraig sefydlog sydd gannoedd o fetrau o dan y ddaear, gan weithio gyda'i gilydd i ddarparu diogelwch dros amser hir.

Fel rhan o grŵp yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, ein cenhadaeth yw darparu GDF ar gyfer y DU. Byddwn yn cyflawni'r genhadaeth hon trwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau a rhanddeiliaid.


Mae diogelu ac amddiffyn pobl a'r amgylchedd yn ganolog i bopeth a wnawn.

Mae polisi llywodraeth y DU ar ddelio â gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr hirdymor yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Annibynnol ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM). Y polisi yw ei waredu'n ddiogel mewn GDF, lle bydd y ddaeareg yn darparu lleoliad diogel, a lle mae'r gymuned leol yn barod i gynnig cartref i gyfleuster o'r fath. Dim ond os bydd y gymuned leol yn cytuno y bydd GDF yn cael ei adeiladu.

Bydd yn cymryd degawdau i gynllunio, dylunio, adeiladu a gweithredu'r cyfleuster cyn bydd modd ei selio a'i gau yn derfynol. Dim ond trwy weithio'n agos gyda chymunedau, datblygu ymddiriedaeth a chydweithio yn yr hirdymor y gallwn gyflawni'r prosiect amgylcheddol pwysig hwn, gan sicrhau bod y gwaith ar y GDF yn cefnogi eu diddordebau cymunedol yn ogystal â'r buddiannau cenedlaethol, ac yn anad dim, yn sicrhau bod y GDF yn hollol ddiogel.

“Dim ond os bydd y gymuned leol yn cytuno y bydd GDF yn cael ei adeiladu.”

Daw RWM ac amrywiaeth o arbenigwyr, sgiliau ac arbenigeddau ynghyd



Ein rôl


Ein rôl ni yw darparu GDF ar ran y wlad. Mae'n un o'r prosiectau diogelu'r amgylchedd hirdymor mwyaf arwyddocaol a welodd y DU erioed, ac mae'n rhan o bortffolio prosiectau mawr y llywodraeth.

Rydym yn is-gwmni sy'n gyfan gwbl eiddo i'r NDA. Mae'r NDA yn gyfrifol, o dan Ddeddf Ynni 2004, am lanhau safleoedd niwclear sifil sy'n eiddo cyhoeddus i'r DU - gan gynnwys rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

Fe'n ffurfiwyd ym mis Ebrill 2014 at ddibenion darparu GDF a darparu atebion ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Rydym yn cael ein dwyn i gyfrif gan yr NDA trwy broses adolygu perfformiad chwarterol.

Mae ein gwaith hefyd yn cefnogi amcanion llywodraeth y DU a nodwyd yn ei Strategaeth Ddiwydiannol i roi hwb i'r economi genedlaethol, cynyddu sgiliau gwyddonol, peirianeg a thechnolegol, a chefnogi twf economaidd rhanbarthol. Byddai GDF yn helpu i gyflawni nodau Bargaen y Sector Niwclear, sy'n cynnwys gweithio'n agos gyda gweddill yr NDA a'r gadwyn gyflenwi i arloesi a lleihau costau datgomiynu.

Mae tîm o tua 200 o bobl yn cynnwys arbenigwyr ym maes gwyddoniaeth niwclear, technoleg a pheirianeg, diogelwch, sicrhad, rheoli rhaglen ac ymgysylltu â chymunedau. Byddwn yn tyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd nesaf wrth i ni weithio'n agos gyda'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi yn y sectorau niwclear, peirianeg ac adeiladu i roi'r prosiect pwysig hwn ar waith.



Y ffordd y cawn ein Llywodraethu

Model Busnes

Rydym yn gweithredu fel is-gwmni yr NDA sy'n cael ei ariannu'n llawn, sydd ynddo ei hun yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth. Fel datblygwr GDF, mae'n rhaid i ni sefydlu cadwyn gyflenwi er mwyn darparu'r dechnoleg a'r gwasanaethau seilwaith y bydd eu hangen i roi'r cyfleuster ar waith. Byddwn yn parhau i gadw cymwysedau strategol pwysig ynghyd â'r gallu i gomisiynu gwasanaethau, darparu arbenigedd gwastraff arbenigol a goruchwyllo a rheoli cyflawni.

Rôl newydd bwysig yw i weithio gyda chymunedau sydd â diddordeb mewn cynnal GDF. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda hwy, gan ddefnyddio proses sydd wedi'i seilio ar gynnwys, i greu Gweithgorau a Phartneriaethau Cymunedol gyda'r nod o ddod o hyd i safle addas a chynnal Prawf Cefnogaeth Gyhoeddus llwyddiannus.


Targedau Corfforaethol

Er mwyn sicrhau ein bod yn perfformio yn unol â thargedau ein prif weithgareddau, fe wnaeth yr NDA, fel y rhanddeiliaid, ati i gymeradwyo ein Cynllun Gweithredu oedd yn amlinellu'r prif ddarparwyddion a thargedau. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd naw allan o'r deg targed wedi'u cyflawni'n llawn ac wedi'u cadarnhau gan dîm archwilio NDA.

Rhoi ar waith un targed corfforaethol: Roedd 'Mynd ati i ymgysylltu â'r cymunedau a chynnal gwerthusiadau safle' ar goll ac ni lwyddwyd i gyflawni'r garreg filltir o ran ffurfio Gweithgor. Cydnabyddir bod yr angen i godi ymwybyddiaeth, ymgysylltu yn eang a gweithio ar yr un cyflymder â phartion unigol sydd â diddordeb yn hanfodol i roi GDF ar waith allai, yn y pen draw, gynnwys y gefnogaeth gymunedol angenrheidiol. Mae'r ffocws cynnar wedi bod ar

gynyddu ymwybyddiaeth ac adeiladu cefnogaeth. Caniateir trafodaethau unigol i gymryd faint bynnag o amser sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ffurfio Gweithgorau llwyddiannus.

Mae crynodeb o'n holl dargedau corfforaethol wedi'u nodi yn yr adran nesaf: 'Cyflwyniad – prif weithgareddau 2019-20'.



Perfformiad Ariannol

Mae ein sefydliad yn gweithredu system lywodraethu prosiect. Seillir hyn ar ddsbarthu cyllid sydd gan yr NDA, trwy gyfarwyddwyr gweithredol atebol, ar gyfer prosiectau cymwys. Defnyddir adolygiadau misol a chwarterol o berfformiad y prosiect a'r rhagolygon amcanestyniadau gorau diweddaraf (LBE) ar gyfer canlyniad diwedd y flwyddyn i reoli'r sefyllfa ariannol. Caiff ein portffolio o brosiectau eu haddasu trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr arian a geir gan yr NDA yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl.

I gael yr holl wybodaeth ariannol, gallwch ddarllen Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2019-20 ar wefan Tŷ'r Cwmnïau [YMA](#).

“Er mwyn sicrhau ein bod yn perfformio yn unol â thargedau ein prif weithgareddau, fe wnaeth yr NDA, fel y rhanddeiliaid, ati i gymeradwyo ein Cynllun Gweithredu oedd yn amlinellu'r prif ddarparwyddion a thargedau.”

Cyflwyno Adroddiad Strategol Gweithgareddau Allweddol 2019-20

Rydym yn arwain y ffordd ynghylch rheoli'r gwastraff ymbelydrol mwyaf peryglus yn y DU mewn dull diogel, sicr a hirdymor.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn darparu atebion ar draws pedwar gweithgaredd sy'n dylanwadu ar yr hyn rydym yn ei wneud:



Rhoi ar waith polisi'r llywodraeth ar waredu daearegol gwastraff uwch ei actifedd

Ein tasg gan y llywodraeth a'r NDA yw gweithio gyda chymuned awyddus i ddatblygu GDF ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr hirdymor. Ein cenhadaeth yw darparu gallu gwaredu diogel a sicr ar gyfer y DU.



Gweithio'n rhagweithiol gyda chynhyrchwyr gwastraff i gynllunio ar gyfer datrysiadau rheoli gwastraff a'u darparu

Rydym yn darparu atebion i'n rhiant-sefydliad, yr NDA, Cwmnïau Trwyddedu Safle, a chynhyrchwyr gwastraff o ran rheoli gwastraff ymbelydrol. Ein nod yw eu helpu i adfer, cyflyru a pheycynnu gwastraff nawr, mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer gwaredu diogel a sicr maes o law.



Rhoi ar waith rhaglen dechnegol gadarn i gefnogi'r rhaglen GDF a rheoli gwastraff

Mae ein Rhaglen Dechnegol yn darparu data achos dylunio a diogel, sy'n cefnogi'r gwaith o reoli gwastraff ymbelydrol heddiw yn ddiogel ac yn sicr, ac yn hysbysu'r rhaglen GDF wrth i safleoedd posibl ddod i'r amlwg yn y dyfodol.



Datblygu RWM i sefydliad cyflawn o'r radd flaenaf

Rydym yn datblygu fel sefydliad perfformiad uchel ac yn adeiladu galluedd ychwanegol, tra – yn bwysicach na dim – cadw'r cymwyseddau technegol craidd.

“Ar y cyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, rydym – gyda'n gilydd – yn cymryd cyfrifoldeb dros ac yn ymdrin â gwastraff ymbelydrol actifedd uchel y DU, yn hytrach na gadael y broblem i genedlaethau'r dyfodol.”

Dyma grynodeb o sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein targedau corfforaethol sydd wedi'u seilio ar y pedwar prif weithgaredd canlynol:

Targedau Corfforaethol	Statws
1. Arwain gwaith lechyd, Diogelwch, Sicrhad, Amgylchedd a datblygu ansawdd i gefnogi rhaglenni cyflawni.	Wedi'i gwblhau
2. Rhoi ar waith y Gwerthusiadau Ymgysylltu Cymunedol a Safleoedd	Heb ei gwblhau
3. Datblygu'r gallu ar gyfer Nodweddu Safleoedd, Gorchymyn Datblygu Caniatâd a gwaith Caniatâd Amgylcheddol.	Wedi'i gwblhau
4. Datblygu gallu technegol y gyfarwyddiaeth i gefnogi'r mentrau safleoedd allweddol a gwerthusiadau safle.	Wedi'i gwblhau
5. Llunio map ffordd Dylunio ac Achos Diogel integredig sy'n nodi pwyntiau penderfynu pwysig a datblygu galluoedd angenrheidiol i gefnogi Lleoli, Rheoli Gwastraff, HSSEQ a rhoi'r Rhaglen ar Waith.	Wedi'i gwblhau
6. Gweithio gyda chynhyrchwyr gwastraff i ddatblygu atebion ar gyfer pecynnu gwastraff sy'n cyd-fynd â gofynion GDF (a chofnodion wedi'u cymeradwyo) a darparu arweiniad o ran gofynion cofnodion pecyn gwastraff.	Wedi'i gwblhau
7. Rhoi rhaglen Gwastraff Gweithgaredd Uchel RWM ar waith i gefnogi Thema Strategol Rheoli Gwastraff Integredig yr NDA.	Wedi'i gwblhau
8. Diogelu ac ymgorffori galluoedd Rhaglen, Portffolio a rheoli Prosiect (P3M) ac adnoddau hirdymor er mwyn rhoi'r Rhaglen ar waith.	Wedi'i gwblhau
9. Cyflawni diwylliant a datblygiad RWM wrth iddo baratoi Tranche 3 – Nodweddu Safle (aml-flwyddyn).	Wedi'i gwblhau
10. Cyflwyno galluogwyr busnes hanfodol i RWM, gan gynnwys swyddfa adeiladau a gwelliannau i alluogwyr fel galluoedd e-gaffael.	Wedi'i gwblhau

Mae'r rhan nesaf o'r adroddiad hwn yn edrych mewn mwy o fanylder ar y cynnydd yn 2019-20 yn y prif feysydd.



Adroddiad Strategol Rhoi'r polisi GDF ar waith

Rydym wedi gwneud camau sylweddol ymlaen yn y 12 mis diwethaf. Cwblhawyd Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Seilwaith Gwaredu Daearegol, ac rydym wedi gallu symud ein gwaith ymlaen i ddod o hyd i safle addas a chymuned barod, trwy gyhoeddi ein dull ar gyfer gwerthuso safleoedd posib ar gyfer GDF.

Rydym nawr mewn trafodaethau gyda nifer o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am gynnal GDF a'r cyfleoedd i'w cymuned.

Ar yr un pryd, rydym edi bod yn gweithio ar y gwaith o greu sylfaen ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer camau nesaf y GDF, fel achosion busnes a chynlluniau.

Datganiad Polisi Cenedlaethol

Yn dilyn creu deddfwriaeth ym mis Mawrth 2015 pryd cafodd y GDF ei ddiffinio fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Genedlaethol, datblygodd llywodraeth y DU ynghyd ag ymgynghori ar Ddatganiad Polisi Cenedlaethol

(NPS) ar gyfer Seilwaith Gwaredu Daearegol. Darparodd RWM dystiolaeth i Bwyllgor Dethol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) oedd yn ystyried yr NPS drafft.

Gosodwyd yr NPS terfynol yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2019 a'i ddynodi ym mis Hydref 2019. Defnyddir yr NPS fel y brif sail i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r Ysgrifennydd Gwladol archwilio a gwneud penderfyniadau ar unrhyw geisiadau caniatâd datblygu ar gyfer seilwaith GDF yn Lloegr yn y dyfodol.

Ymgysylltu â chymunedau a gwerthuso safleoedd


Ein dull yw dod o hyd i safle addas a chymuned sy'n barod i gynnal GDF. Bydd cynnal GDF yn dod â llawer o fuddion i'r gymuned sy'n cynnig cartref i GDF – o'i adeiladu a'i weithredu, bydd yn creu nifer sylweddol o swyddi tra medrus a chyfleoedd hyfforddi am ddegawdau, yn ogystal â chyfleoedd buddsoddi sylweddol eraill sy'n cyd-fynd â gweledigaeth twf hirdymor y gymuned ei hun.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2019, cyhoeddwyd ein rownd derfynol o ran y dull y byddwn yn ei ddefnyddio i werthuso safleoedd GDF posib a sut y byddwn yn penderfynu ar ei addasrwydd. Bydd yn seiliedig ar y ffactorau canlynol:

National Policy Statement for Geological Disposal Infrastructure

A framework document for planning decisions on nationally significant infrastructure

Presented to Parliament pursuant to Section 9(8) of the Planning Act 2008



- **Gwerth am arian** - mae GDF yn brosiect buddsoddi hanfodol, ond hirdymor a chost uchel. Ein gwaith ni yw sicrhau bod y costau ar gyfer pob lleoliad posib yn cynrychioli gwerth am arian.

Yn ystod 2019, dechreuon ni siarad â phobl a chymunedau ledled y wlad i'w helpu i ddarganfod mwy am y cyfleoedd y gallai'r rhaglen fuddsoddi hirdymor hon ei chynnig, fel y gallant benderfynu a allai fod gan eu cymuned ddiddordeb.
